| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 4, Hydref, 2012. |
| Pwnc | Penodiad i'r Pwyllgor Safonau. |
| Awdur | Dilys Phillips, Swyddog Monitro |

1. Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau sef :-

    - 5 aelod annibynnol (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol).
    - 1 aelod pwyllgor cymunedol sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd).
    - 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

2. Ar 19, Gorffennaf 2012 derbyniais ymddiswyddiad un o'r aelodau annibynnol, gan greu sedd wag ar y pwyllgor.

3. Yn unol â'r drefn a gytunwyd gan y Cyngor hysbysebwyd y sedd wag ar gyfer aelod annibynnol yn y wasg gyda dyddiad cau o 27, Medi. Sefydlwyd panel ymgynghorol i ystyried y ceisiadau a chyfweld yr ymgeiswyr. Bydd y panel yn cyfarfod ar y 1, Hydref a chyflwynir ei argymhelliad i'r Cyngor.

4. **ARGYMHELLIAD.**

    Penodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn unol ag argymhelliad y Panel Ymgynghorol, i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.